Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# ProMo-Cymru Fasnachol Cyf

*Mae popeth yn cychwyn gyda sgwrs*

## Swydd Ddisgrifiad – Rheolwr Gweithrediadau Llinellau Cymorth (RhGLl)

| | |
|---|---|
| **Cyflog:** | **£31, 301 - £36, 680 y flwyddyn** |
| **Lleoliad:** | **Swyddfa ProMo-Cymru a/neu weithio o gartref** |
| **Oriau gwaith:** | **Llawn amser (35 awr yr wythnos)** |
| **Gwyliau:** | **25 diwrnod y flwyddyn** |
| **Hyd y cytundeb:** | **Parhaol** |
| **Cyfnod prawf:** | **6 mis** |
| **Yn atebol i:** | **Pennaeth Gweithredu Cymdeithasol (PGC)** |

### Gweledigaeth:

Mae ProMo-Cymru yn gweithio i sicrhau bod pobl ifanc a chymunedau yn wybodus, wedi'u hymgysylltu, cysylltu a'u clywed.

### Ein Dull o Weithio:

Rydym yn gweithio'n gydweithiol i greu cysylltiadau rhwng pobl a gwasanaethau gan ddefnyddio creadigrwydd a thechnoleg ddigidol. Rydym yn cefnogi'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector i ddychmygu, profi a chreu gwasanaethau gwell.

Mae ProMo yn gweithio gyda chymunedau drwy gyfathrebu, eiriolaeth, ymgysylltiad diwylliannol a chynhyrchiad digidol a chyfryngol. Mae dros 20 mlynedd o brofiad yn cyflawni prosiectau gwybodaeth ieuenctid digidol yn cyfarwyddo ein gwaith. Rydym yn rhannu'r wybodaeth yma gyda hyfforddiant ac ymgynghoriaeth, yn creu partneriaethau hir dymor sydd yn buddio pobl a sefydliadau.

Mae ProMo-Cymru yn elusen gofrestredig ac yn fenter gymdeithasol; mae'r holl elw yn cael ei fuddsoddi'n ôl i mewn i'n prosiectau cymunedol.

**Pwrpas y Swydd:**

**Cyfrifoldebau Penodol**

**I. Gweithrediadau a Datblygiadau Llinellau Cymorth**

- Cynnal amgylchedd gwaith agored, deinamig a chefnogol, gyda theimlad cryf o bwrpas a chyfrifoldebau ar y cyd
- Sicrhau darpariaeth pob llinell gymorth yn unol â gofynion cytundebol
- Cynnal, cefnogi a goruchwylio fframwaith ansawdd ar gyfer holl wasanaethau gweithredu cymdeithasol
- Cynnal, cefnogi a goruchwylio fframwaith adrodd ar gyfer holl wasanaethau gweithredu cymdeithasol
- Cefnogi gwaith o werthuso, dadansoddi ac adolygu holl wasanaethau gweithredu cymdeithasol
- Cynnal, cefnogi a goruchwylio gofynion technegol a datblygiadau technolegol holl wasanaethau gweithredu cymdeithasol
- Datblygu a chynnal perthnasau cydweithredol da gyda rhanddeiliaid gwasanaethau gweithredu cymdeithasol
- Bod yn gyswllt o ddydd i ddydd a sicrhau'r cysylltiad a'r arweiniad sydd ei angen i gefnogi'r tîm gweithredu cymdeithasol
- Bod yn Swyddog Diogelu Dynodedig (SDD) ar gyfer y tîm gweithredu cymdeithasol, a delio gyda chysylltiadau a phryderon diogelu a bygythiad i fywyd yn ôl yr angen
- Bod yn swyddog GDPR dynodedig y tîm gweithredu cymdeithasol
- Cymryd rhan yn y rota dyletswyddau a darparu cymorth y tu allan i oriau

**II. Staffio**

- Meithrin y tîm gweithredu fel criw ar y cyd ac yn unigol a sicrhau eu lles, cefnogaeth, arweiniad, datblygiad, goruchwiliad, rheolaeth llinell
- Cefnogi'r broses recriwtio, anwytho, a hyfforddi staff, rhai dan hyfforddiant, staff sesiynol, myfyrwyr, prentisiaid, gwirfoddolwyr neu debyg, yn ôl yr angen
- Hwyluso a goruchwylio rhannu gwybodaeth, cyfnewid a throsglwyddo rheolaidd gyda chyfarfodydd rheolaidd ac yn ôl yr angen
- Goruchwylio, gwirio a rheoli cofnodi, cadw ac archifo gwybodaeth, a'r llif mewn ac allan o'r llwyfannau a sianeli digidol gweithredu cymdeithasol

**III. Ansawdd ac Ymarfer**

- Bod yn arweinydd polisi, gwybodaeth ac ymarfer y Tîm Gweithredu Cymdeithasol
- Gwerthuso a dadansoddi data yn feirniadol at ddibenion gwelliant parhaus ac atebolrwydd i randdeiliaid a chomisiynwyr
- Cynnal a datblygu'r Canllaw a'r Llawlyfr Cyngor Llinellau Cymorth
- Goruchwylio, cynnal a datblygu'r Cynllun Dysgu a Datblygu ac archwilio

### IV. Cydweithio a Hyrwyddo

- Sicrhau perthnasau gwaith, cyfathrebu a rhannu a chyfnewid gwybodaeth yn effeithiol gyda chydweithwyr mewnol a rhanddeiliaid allanol yn ôl yr angen
- Codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo proffil cadarnhaol o ProMo-Cymru a Gweithredu Cymdeithasol
- Cefnogi datblygiad a throsglwyddiad cynlluniau marchnata ac ymgysylltu'r Tîm Gweithredu Cymdeithasol

### V. Dysgu a Datblygu

- Yn gyfrifol am ddysgu a datblygiad eich hun ynghyd â darpariaeth gan ProMo-Cymru
- Sicrhau ymddygiad modelu i gefnogi cydweithwyr a hyrwyddo parch at ei gilydd, ymarfer adlewyrchol ac adferol, a chadw at bolisïau a gweithdrefnau
- Derbyn a chysylltu gyda threfniadau cefnogaeth, goruchwyliaeth ac arfarniad
- Gweithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm
- Yn gyfrifol am iechyd, diogelwch a lles eich hun ynghyd â darpariaeth gan ProMo-Cymru

**Bydd disgwyl i'r un sydd yn dal y swydd i ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau a thasgau rhesymol eraill fel sy'n ofynnol ac fel sydd ei angen, sydd efallai ddim yn cael ei nodi o fewn y swydd ddisgrifiad.**

**Gall y swydd ddisgrifiad yma fod yn destun i adolygiad a newidiadau i gynnwys y fath ddyletswyddau a chyfrifoldebau penderfynir mewn ymgynghoriad â'r un sydd yn dal y swydd. Nid yw'n fwriad iddo fod yn anhyblyg, ond dylid ei ystyried fel darparu fframwaith mae'r unigolyn yn gweithio iddo.**

### Manyleb y Person - Rheolwr Gweithrediadau Llinellau Cymorth

| Gofyniad | Hanfodol | Dymunol | Sut Canfyddir /Asesir |
|---|---|---|---|
| Addysg/ Cymwysterau: | Addysg cynt, diweddar a phresennol a datblygiadau proffesiynol sydd yn berthnasol i'r swydd hon. | | Ffurflen gais |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Profiad/ Gwybodaeth: | CCUHP, a hawliau dynol<br><br>Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant<br><br>Iechyd meddwl a llesiant emosiynol<br><br>Llymder, tlodi ac amddifadedd<br><br>Eiriolaeth<br><br>Llinell Gymorth | | Ffurflen gais a chyfweliad |
| Sgiliau/Gallu: | Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar rhagorol<br><br>Sgiliau rhyngbersonol a gwasanaeth cwsmer rhagorol<br><br>Sgiliau rhagorol yn rheoli amser a'ch hun<br><br>Sgiliau TGCh rhagorol, gan gynnwys amrywiaeth o systemau, llwyfannau ac offer | Y gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg | Ffurflen gais a chyfweliad |
| Priodweddau / Rhinweddau: | Seiliedig ar hawliau<br><br>Seiliedig ar werth<br><br>Hunan ymwybyddiaeth<br><br>Hyblyg, ystwyth, dibynadwy, gwydn<br><br>Meithrin perthynas, hyder, ysgogiad | | Ffurflen gais a chyfweliad |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gofynion eraill: | | Y gallu i yrru car, mynediad i fodd trafnidiaeth bersonol, trwydded glan | Ffurflen gais |